



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales



Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2025-26

Medi 2026



Gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall.

Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales



Ugain Mlynedd
Twenty Years

Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2025-26



Contents

Rhagair	6
Cefndir	8
Ein rôl	9
Ein huchelgais	9
Ein hegwyddorion	9
Ein dyletswyddau a'n hymrwymïadau cydraddoldeb	10
Ein hamcanion cydraddoldeb	13
Ein perfformiad yn 2025-26	14
Amcan 1: Sicrhau ein bod yn cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol i ddefnyddio ein gwasanaeth cwynion.	15
Amcan 2: Helpu i wella ein gwasanaethau a'n heffaith drwy ymgysylltu'n well â grwpiau cydraddoldeb.	18
Amcan 3: Codi ymwybyddiaeth o'r swyddfa a'i rôl a'i phwerau ymhlith grwpiau targed.	19
Amcan 4: Cynnal a datblygu gwybodaeth fwy hygyrch sy'n egluro pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio.	22
Amcan 5: Drwy ein rôl Safonau Cwynion, ceisio dylanwadu'n gadarnhaol ar hygyrchedd prosesau cwynion lleol.	24

Amcan 6: Gweithio i wella cynrychiolaeth grwpiau targed ymhlith ein gweithlu.	25
---	----

Amcan 7: Parhau i fonitro ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodi unrhyw gyfleoedd i'w leihau ymhellach.	27
--	----

Atodiadau	28
------------------	-----------

Atodiad 1: Proffil cydraddoldeb ein hachwynwyr	29
--	----

Atodiad 2: Proffil cydraddoldeb ein gweithlu	32
--	----

Atodiad 3: Proffil cydraddoldeb ein hymgeiswyr swyddi	35
---	----

Atodiad 4: Dadansoddiad rhyw yn ôl cyflog a rôl, math o gontract a threfniadau gwaith	37
---	----

Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2025–26.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i degwch, hygyrchedd a chynhwysiant. Fel sefydliad sydd â'i waith wedi'i wreiddio mewn helpu pobl pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn methu, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fod ar agor i bawb sydd ein hangen, yn deall y rhwystrau y gall pobl eu hwynebu, ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwn i wella ein gwasanaeth ein hunain a thirwedd gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer y cymunedau mwyaf agored i niwed.

Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd calonogol mewn llawer o feysydd y gwnaethom ganolbwyntio arnynt y llynedd. Cynyddodd ymwybyddiaeth o'n swyddfa i 52%, gyda gwelliannau ar draws yr holl grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a dargedwyd gennym yn ein gwaith hyrwyddo. Rydym wedi parhau i wella hygyrchedd

ein gwasanaeth, gan gyhoeddi mwy o wybodaeth mewn fformatau hygyrch a datblygu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol. Gwnaethom hefyd dderbyn llawer mwy o gwynion dros y ffôn. Mae'r camau hyn yn bwysig oherwydd nid dim ond bodloni safonau yw hygyrchedd; mae'n ymwneud â sicrhau y gall pobl ein cyrraedd yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw. Mae sgiliau iaith Gymraeg ein staff wedi gwella unwaith eto, ac nid oedd gennym unrhyw fwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau.

Ar yr un pryd, rydym am barhau i wella mewn rhai meysydd. Mae rhai grwpiau'n parhau i fod yn llai tebygol o ddefnyddio ein gwasanaeth, neu'n llai gweladwy yn ein data. Ychydig iawn o bobl sy'n rhyngweithio â'n gwasanaeth yn y Gymraeg. Nid yw cynrychiolaeth o fewn ein gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn eto. Rydym hefyd yn gwybod bod pwysau ehangach ar wasanaethau wedi effeithio ar gyflymder y cynnydd mewn rhai meysydd yn ystod y flwyddyn.

Gan edrych ymlaen, bydd y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn helpu i lunio ein Cynllun Strategol a'n Cynllun Cydraddoldeb nesaf ar gyfer 2026–29. Bydd y cynlluniau hyn yn ein cefnogi i gryfhau ymgysylltiad er mwyn gwella sut rydym yn clywed gan bobl a allai wynebu rhwystrau, a pharhau i adeiladu gwasanaeth sy'n gynhwysol, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

Hoffwn ddiolch i'n staff, partneriaid a rhanddeiliaid am eu hymrwymiad i'r gwaith hwn. Yn bwysicaf oll, diolch i bawb a ddefnyddiodd ein gwasanaeth, a rannodd eu profiadau, neu a ddarparodd ddata cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn. Mae eu cyfraniad yn ein helpu i ddeall beth sy'n gweithio, ble mae rhwystrau'n parhau, a sut y gallwn barhau i wella ar gyfer pobl a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Wrth i ni symud i gam nesaf ein gwaith, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dystiolaeth hon i herio ein hunain, cryfhau ein harfer a sicrhau bod cydraddoldeb, hygyrchedd a chynhwysiant yn parhau i fod yn ganolog i'r ffordd rydym yn gwasanaethu pobl a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru
Medi 2026



Cefndir



Ein rôl

Mae gennym dair rôl yn bennaf.



Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.



Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.



Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Ein huchelgais



Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan aiff pethau o chwith.



Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella.



Mae ymddiriedaeth yn llywodraeth leol Cymru i gyflawni'r safonau uchaf o ymddygiad.



Rydym yn parhau i fod yn llais dylanwadol ac uchel ei barch o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Ein hegwyddorion

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen arnynt.

Ein dyletswyddau a'n hymrwymladau cydraddoldeb

Mae'n rhaid i ni gydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal, rydym yn ymrwmo i weithredu yn ysbryd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chefnogi'r Gymraeg.

Dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), gan ddisodli'r dyletswyddau ar wahân ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd.

O dan y ddyletswydd gyffredinol, rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran; anabledd; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; ailbennu rhywedd; hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd); crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred); beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaeth sifil (ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu).

Dyletswyddau cydraddoldeb penodol

Nid yw'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol yn rhagnodol ynghylch y dull y dylai awdurdod cyhoeddus ei gymryd er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Mae gan gyrff rhestredig yng Nghymru ddyletswyddau penodol hefyd i'w cynorthwyo i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

O dan y dyletswyddau penodol yng Nghymru, rhaid i ni osod Amcanion Cydraddoldeb a pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

Rhaid i ni hefyd gasglu a monitro data cydraddoldeb (gan gynnwys mewn perthynas â gwahaniaethau cyflogaeth a chyflog); asesu effaith ein polisiau a'n gweithdrefnau ar gydraddoldeb; ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig; darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb i staff ac ystyried cydraddoldeb wrth gaffael.

Dyletswydd gymdeithasol-economaidd

Mae Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol helpu i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol – sy'n deillio, er enghraifft, o wahaniaethau mewn galwedigaeth, cyfleoedd addysgol neu le preswyllo. Cyfeirir at hyn fel y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau ar y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd ym mis Mawrth 2022. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus

ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol helpu i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd. Penderfyniadau strategol yw'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n effeithio ar sut mae corff cyhoeddus yn cyflawni ei ddiben statudol. Nid ydym wedi ein rhwymo gan y Ddeddf; rydym wedi ymrwymo i'w hegwyddorion ac eisoes wedi cymryd camau i gryfhau'r ystyriaeth o anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn ein gwaith.

Y Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chroesawu a'i thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg ym mhob agwedd ar ein gwaith a'n bod yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.

O dan ein Deddf, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg. [Ewch i fanylion y Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â nhw ac i ddod o hyd i'n Polisi Iaith Gymraeg.](#)

Rydym yn rhoi mwy o fanylion am ein perfformiad o dan y Safonau yn ystod 2025-26 mewn Adroddiad Safonau'r Iaith Gymraeg ar wahân, a gyhoeddwyd ym mis Medi.

Sut rydym yn rheoli ein Cynllun Cydraddoldeb

Mae gan ein Tîm Rheoli gyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol a llywodraethu'r swyddfa ac mae'n sicrhau bod rheolaeth weithredol yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a chanllawiau arfer da. Mae ein Tîm Rheoli yn derbyn adroddiadau chwarterol ar weithredu'r Cynllun a'r cynllunio, wrth symud ymlaen.

Mae ein Pennaeth Polisi ac Ymgysylltu yn gyfrifol am gydlyn gweithredu camau gweithredu o dan y Cynllun; gwerthuso ac adolygu'r Cynllun; paratoi adroddiadau cydraddoldeb blynyddol a llunio camau gweithredu newydd, wrth symud ymlaen. Maent hefyd yn cynorthwyo staff i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb.

Mae pob aelod o staff sydd wedi cael cyfrifoldebau am gamau gweithredu yn gyfrifol am gwblhau'r camau gweithredu a neilltuwyd iddynt, gyda chynnydd yn cael ei fonitro'n barhaus, ar lefel tîm.

Sut y gwnaethom baratoi'r Adroddiad hwn

Wrth ddatblygu'r Adroddiad hwn, gwnaethom ddefnyddio ein data perfformiad a chydraddoldeb ein hunain am ddefnyddwyr ein gwasanaeth, staff a phobl sy'n gwneud cais i ymuno â ni. Gwnaethom ddadansoddi'r data hwn yng nghydestun ystadegau ehangach sydd ar gael drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol; Llywodraeth Cymru; Swyddfa Cydraddoldeb Llywodraeth y DU a llawer o rai eraill.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r data a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei adroddiad yn 2023 'A yw Cymru'n Decach?'. Ychydig iawn o ymchwil sydd ar gael o hyd ar brofiadau gwahanol grwpiau wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac ar eu profiadau o'r system cyfiawnder gweinyddol.

Ein hamcanion cydraddoldeb

Yn 2023, gwnaethom fabwysiadu ein Cynllun Cydraddoldeb newydd. Ei fwriad yw cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn cyfrannu at bob un o bedwar nod ein Cynllun Strategol.

Nod Strategol 1: Darparu cyfiawnder gydag effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus

Sicrhau ein bod yn cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol i ddefnyddio ein gwasanaeth cwynion.

Helpu i wella ein gwasanaethau a'n heffaith drwy ymgysylltu'n well â grwpiau cydraddoldeb.

Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant

Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r swyddfa a'i rôl a'i phwerau ymhlith grwpiau targed.

Cynnal a datblygu gwybodaeth fwy hygyrch sy'n egluro pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio.

Nod Strategol 3: Cynyddu effaith ein gwaith gwella rhagweithiol

Drwy ein rôl Safonau Cwynion, ceisio dylanwadu'n gadarnhaol ar hygyrchedd prosesau cwynion lleol.

Nod Strategol 4: Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol

Gweithio i wella cynrychiolaeth grwpiau targed ymhlith ein gweithlu.

Parhau i fonitro ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodi unrhyw gyfleoedd i'w leihau ymhellach.

Ein perfformiad yn 2025-26



Amcan 1: Sicrhau ein bod yn cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol i ddefnyddio ein gwasanaeth cwynion.

Hygyrchedd

Bob blwyddyn, rydym yn comisiynu ymchwil i wirio beth mae pobl yn ei feddwl am y gwasanaeth maen nhw wedi'i dderbyn gennym. Fel rhan o hynny, rydym eisiau gwybod a yw pobl yn cytuno ein bod yn hygyrch.

Roeddem yn falch o weld, yn 2025-26, fod 83% o'r achwynwyr a ofynnwyd gennym wedi dweud ei bod hi'n hawdd cysylltu â ni. Y llynedd roedd y canlyniad hwn yn 86%, felly mae'n dda gweld bod cyfran fawr o achwynwyr yn dal i gadarnhau ein bod ni'n hygyrch. Yn bwysig, roedd y safbwyntiau ar hygyrchedd ein gwasanaeth yr un fath yn fras waeth beth fo oedran, ethnigrwydd, anabledd, cyrhaeddiad addysgol a'r gallu i siarad Cymraeg yr achwynydd.



Dywedodd 83% o'r achwynwyr a ofynnwyd gennym ei bod hi'n hawdd cysylltu â ni.

Cwynion ar lafar

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cwyno wrthym ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post, gallwn dderbyn cwynion nad ydynt yn ysgrifenedig. Eleni, cawsom 236 o gwynion llafar, nifer llawer uwch na'r llynedd (162).

Eleni, gwnaethom ddadansoddi proffil cydraddoldeb pobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth cwynion llafar. Yn seiliedig ar argaeledd data, gallem wneud hyn ar gyfer ein cwynion rhwng Ebrill a Medi 2025. Awgrymodd y dadansoddiad, o'i gymharu â'r holl achwynwyr, fod pobl sy'n defnyddio gwasanaeth cwynion llafar yn fwy tebygol o:

- fod yn hŷn
- uniaethu fel anabl
- uniaethu fel siaradwyr Cymraeg
- uniaethu fel siaradwyr ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg.

Roeddent hefyd yn llawer llai tebygol o fod â chymwysterau lefel gradd.

Byddwn yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i dargedu ein gwasanaeth cwynion llafar yn y dyfodol ac yn annog defnyddio'r gwasanaeth hwn yn y Gymraeg ac ieithoedd eraill.

Rydym am sicrhau bod pawb a allai fod angen defnyddio'r gwasanaeth hwn yn gwybod amdano. Dangosodd ymchwili ymwybyddiaeth genedlaethol a gomisiynwyd gennym unwaith eto fod tua thri chwarter o'r ymatebwyr yn gwybod y gallem dderbyn cwynion llafar. Roedd 59% - cyfran uwch na'r llynedd - yn gwybod y gallem dderbyn cwyn drwy laith Arwyddion Prydain (BSL).

Mae hyn yn dangos bod lefel yr ymwybyddiaeth o'r opsiwn hwn i gwyno yn gyffredinol dda a hoffem ei wneud hyd yn oed yn well, yn enwedig ymhlith pobl anabl. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hwn.



Cawsom 236 o gwynion llafar, nifer llawer uwch na'r llynedd.

Cymorth ychwanegol

Rydym yn gofyn i bawb sy'n cwyno wrthym a oes angen help a chefnogaeth arnynt. Er enghraifft, gallwn gynnig dogfennau mewn gwahanol fformatau, trefnu cyfieithiad i wahanol ieithoedd, neu gyfeirio pobl at gyrff cynghori neu eiriolaeth berthnasol.

Yn 2025-26, mewn 526 o achosion, gwnaeth pobl roi gwybod i ni am eu hanghenion (er enghraifft, bod ganddynt ddyslecsia neu eu bod yn niwroamrywiol) neu ofyn i ni addasu'r ffordd rydym yn cyfathrebu â nhw.

Bob blwyddyn, rydym yn gofyn i bobl a oeddent yn cytuno ein bod wedi bodloni eu ceisiadau am gymorth ychwanegol. Er bod y sampl yn tueddu i fod yn fach, cynyddodd y gyfran a gytunodd ein bod wedi diwallu eu hanghenion yn sylweddol o 36% yn 2024-25 i 70% yn 2025-26.

Dywedodd 81% o'n staff eleni eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent ddarparu ar gyfer ceisiadau am addasiadau rhesymol.

Defnyddwyr y Gymraeg

Yn OGCC, rydym yn cefnogi'r Gymraeg yn llwyr ac wedi ymrwymo i gefnogi siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith. Mae ein gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog, ac rydym bob amser yn pwysleisio na fydd cysylltu â ni yn y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi o ran pa mor gyflym y byddwn yn ystyried cwyn. Mae gan rhwng 25% a 30% o'n staff sgiliau iaith Gymraeg.

Mae'n ymddangos bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol na grwpiau eraill o gwyno'n uniongyrchol i sefydliadau yn ein hawdurdodaeth; ac o fod yn hapus â chanlyniad eu cwyn. Mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn fwy ymwybodol o'n swyddfa yn gyffredinol ac mae ganddyn nhw lefelau uwch o hyder ynom ni na'r cyhoedd yn ehangach. Serch hynny, eleni, dim ond 17 o bobl a ofynnodd i ni gyfathrebu â nhw yn y Gymraeg, gyda 7 o bobl eraill yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg wrth gyfathrebu â ni.

Gall fod nifer o resymau pam mae siaradwyr Cymraeg sy'n cysylltu â ni yn dewis cyfathrebu â ni yn Saesneg. Serch hynny, rydym yn benderfynol o barhau i archwilio ffyrdd o annog rhyngweithio â'n gwasanaeth yn y Gymraeg.

Ieithoedd cymunedol

Rydym yn gwybod y gallai fod angen ein gwasanaeth ar lawer o gymunedau amrywiol yng Nghymru a gan bobl sy'n defnyddio ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. Yn 2025-26, gwnaethom ddatblygu adnoddau gwybodaeth mewn sawl iaith gymunedol i'w gwneud hi'n haws i bobl gwyno. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn wir mai ychydig iawn o bobl sy'n defnyddio ieithoedd cymunedol wrth gwyno wrthym ni. Yn 2025-26, roedd 4 o'n cwynion newydd yn ymwneud â chymorth cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd. Hefyd, dywedodd 0.12% o'n hachwynwyr a rannodd ddata cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn mai iaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg yw eu prif iaith.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo ein gwasanaeth i ddefnyddwyr ieithoedd cymunedol, gan bwysleisio'n arbennig fanteision ein gwasanaeth cwynion llafar.



Ychydig iawn o bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn y Gymraeg. Hoffem newid hyn.

Amcan 2: Helpu i wella ein gwasanaethau a'n heffaith drwy ymgysylltu'n well â grwpiau cydraddoldeb.

Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion mynediad penodol, a hefyd gan ein grwpiau targed, yn parhau i fod yn hanfodol i'n helpu i ddeall sut i dargedu ein gwasanaethau'n well a chefnogi pobl i gael mynediad atynt.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddeall eu profiadau o'n gwasanaeth a'r rhwystrau y gallent eu hwynebu.

Roedd y flwyddyn 2025-26 yn heriol i ni ac er mwyn gwneud y cynnydd yr hoffem ei wneud, mae ein Cynllun Strategol newydd 2026 - 2029 yn cynnwys ein hymrwymiad i ddatblygu a chryfhau ein gwaith ymgysylltu, gan gynnwys sut rydym yn clywed gan bobl a allai wynebu rhwystrau i gael mynediad at ein gwasanaeth.

Amcan 3: Codi ymwybyddiaeth o'r swyddfa a'i rôl a'i phwerau ymhlith grwpiau targed.

Ein huchelgais o dan yr amcan hwn yw sicrhau bod cymunedau amrywiol yng Nghymru yn gwybod am ein gwasanaeth ac yn deall yr hyn y gallwn a'r hyn na allwn ei wneud. Rydym am weld newid ym mhroffil ein hachwynwyr, gyda chymunedau amrywiol yn cael eu cynrychioli'n sylweddol well.


Nid oes gennym y capasiti i gyrraedd pob cymuned yn yr un modd. Rydym yn canolbwyntio ar grwpiau penodol, a nodwyd fel blaenoriaethau drwy ein hadolygiad o ymchwil a monitro cydraddoldeb.

Yn ystod 2025-26, ein grwpiau targed oedd pobl o gefndiroedd ethnig a chenedlaethol amrywiol; siaradwyr Cymraeg; a phobl sy'n profi anfantais gymdeithasol-economaidd.


Ymwybyddiaeth

Rydym yn comisiynu arolwg yn rheolaidd i wirio faint o bobl yng Nghymru sy'n gwybod am ein gwasanaethau. Mae'r arolwg hwn yn seiliedig ar sampl cwota cynrychioliadol, sy'n cynnwys o leiaf 1,000 o oedolion 16 + sy'n byw yng Nghymru.

Eleni, dywedodd 52% o'r bobl a ofynnwyd eu bod yn gwybod amdanom ni – o'i gymharu â 48% y llynedd. Yn hollbwysig, cynyddodd ymwybyddiaeth ar gyfer pob grŵp targed, gyda manteision penodol ymhlith cymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd. O'r holl grwpiau rydyn ni'n eu monitro, dim ond y grŵp ymatebwyr iau (16-34) a nododd ymwybyddiaeth sylweddol is na'r cyfartaledd o'r swyddfa.



Dywedodd **52%** o'r bobl a ofynnwyd eu bod yn ymwybodol ohonom.



Dywedodd **79%** o'r bobl a oedd yn gwybod amdanom bod ganddynt hyder yn ein swyddfa.

Roedd hefyd yn gadarnhaol bod hyder yn ein swyddfa wedi parhau'n uchel. Eleni, dywedodd 79% o'r ymatebwyr fod ganddyn nhw hyder ynom ni – gan gynnal y canlyniad yn gryf o'r llynedd. Roedd hyder ychydig yn is ymhlith pobl oedd yn anabl neu a oedd wedi'u nodi â gradd gymdeithasol DE.

Gwnaethom barhau i gymryd ymagwedd ragweithiol at gynyddu ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth i bobl yn ein grwpiau targed, gan ganolbwyntio ein gwaith allgymorth ar ddigwyddiadau a meysydd lle mae ein cymunedau targed wedi'u cynrychioli'n arbennig o dda. Gwnaethom fynychu sawl digwyddiad i hyrwyddo ein gwaith,


gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Ffair Iechyd Cymunedau Lleiafrifol Ethnig a Chynhadledd Genedlaethol TPAS.

Cynrychiolaeth ein grwpiau targed ymhlith ein hachwynwyr

Rydym yn gofyn i bawb sy'n gwneud cwyn i ni gwblhau holiadur cydraddoldeb. Rydym yn darparu amrywiaeth o sianeli i bobl ddychwelyd eu holiaduron wedi'u cwblhau atom ni.

Yn ogystal â gallu llenwi ffurflenni ar-lein neu ar bapur, byddwn hefyd

Cyfran o bobl Cymru a oedd yn gwybod amdanom, 2024-2026.



yn ffonio pobl, gyda'u caniatâd, fel y gallant eu llenwi ar lafar hefyd. O ganlyniad, mae gennym gyfradd ddychwelyd gymharol uchel o 45%.

Mae ein data cydraddoldeb yn awgrymu bod menywod, pobl anabl, pobl o gefndiroedd crefyddol amrywiol a phobl sy'n uniaethu fel LGBTQ+ wedi'u cynrychioli'n dda ymhlith ein hachwynwyr. Eleni gwelsom hefyd welliant sylweddol yng nghynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol.

Fodd bynnag, roedd rhai grwpiau eraill yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pobl iau (o dan 25 oed)
- pobl dros 55 oed a thros 65 oed
- pobl o gefndiroedd cenedlaethol amrywiol
- defnyddwyr ieithoedd cymunedol
- pobl nad oes ganddynt gymwysterau lefel gradd
- pobl sy'n anweithredol yn economaidd.

Ychydig iawn o bobl sy'n cwyno wrthym ni sy'n dweud mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf. Fodd bynnag, o fis Ebrill

2026 ymlaen, bydd gennym ddata gwell ar sgiliau iaith Gymraeg ein defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yn well pa mor dda y mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynrychioli ymhlith ein hachwynwyr.

Mae ymwybyddiaeth o'n swyddfa ymhlith bron pob un o'r grwpiau hyn yn dda ar y cyfan, gyda dim ond pobl iau sy'n llawer llai ymwybodol ohonom na'r cyfartaledd. Serch hynny, byddwn yn parhau â'n gwaith i wella cynrychiolaeth y grwpiau hyn ymhlith ein hachwynwyr ac yn annog pobl i ryngweithio â'n gwasanaeth yn y Gymraeg.

Mae proffil cydraddoldeb mwy manwl ein hachwynwyr ar gael yn [Atodiad 1](#).

Amcan 4: Cynnal a datblygu gwybodaeth fwy hygyrch sy'n egluro pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio.

Mae'n hanfodol bod ein sianeli cyfathrebu a'n cynnwys yn hygyrch. Rydym yn teilwra ein cyfathrebiadau i anghenion grwpiau penodol, gan gynnwys cynhyrchu fersiynau Hawdd eu Darllen a fersiynau fideo o'n hadroddiadau allweddol.

Gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol

Mae'r wefan yn parhau i gynnwys teclyn bar o'r enw ReachDeck, i gynorthwyo defnyddwyr gyda hygyrchedd gwefan. Rydym wedi parhau i gymryd camau i wella hygyrchedd y wefan a phrofiad y defnyddiwr. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom

- leihau nifer y ffeiliau PDF ar ein gwefan o 40%
- dechrau cyhoeddi ein hadroddiadau budd y cyhoedd ar ffurf HTML
- ailwampio'r tudalennau â chanllawiau ar sut i gwyno a sut i gael mynediad at gymorth ychwanegol
- datblygu a chyhoeddi canllawiau a ffurflenni cwyno mewn sawl iaith gymunedol.

Rydym yn cynyddu ein dilynwyr yn gyson ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gyfradd ymgysylltu ar LinkedIn wedi bod yn arbennig o gadarnhaol.

Sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n cefnogi, cynghori a chynrychioli achwynwyr

Gwyddom fod sefydliadau'r trydydd sector a chynrychiolwyr etholedig – Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol – yn cynnig cefnogaeth a chynghori allweddol i bobl sy'n profi problemau gyda gwasanaethau cyhoeddus.

Ymysg y defnyddwyr gwasanaeth a holwyd gennym eleni, clywodd 5% amdanom ni gan sefydliadau cynghori ac eiriolaeth; a 4% gan gynrychiolydd etholedig.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn i godi ymwybyddiaeth o sut y gallwn helpu:

- Am y tro cyntaf, gwnaethom fynychu ac arddangos yn gofod3, y digwyddiad mwyaf i sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru.
- Gwnaethom gynnig hyfforddiant am ddim ar ein rôl a'n pwerau i 4 swyddfa etholaeth yng Nghymru ac 1 sefydliad trydydd sector.
- Gwnaethom fynychu ffair gynghori yn San Steffan i siarad am ein gwaith a'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig i Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau Cymru.

O dan ein Cynllun Strategol newydd, byddwn yn gwneud mwy i ymgysylltu â sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol sy'n cefnogi, cynghori a chynrychioli achwynwyr.

Mae ein gwefan yn parhau i gynnwys ein cyfeiriadur o gyngor a chymorth eiriolaeth sydd ar gael yng Nghymru. Eleni, cytunodd 66% y gallant gynnig gwybodaeth o ansawdd uchel am y cyngor a'r gefnogaeth eiriolaeth sydd ar gael – cyfran ychydig yn uwch na 64% y llynedd.



Gwnaethom fynychu ac arddangos yn gofod3, y digwyddiad mwyaf i sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru.



Gwnaethom gynnig hyfforddiant am ddim ar ein rôl a'n pwerau i 4 swyddfa etholaeth yng Nghymru ac 1 sefydliad trydydd sector.

Amcan 5: Drwy ein rôl Safonau Cwynion, ceisio dylanwadu'n gadarnhaol ar hygyrchedd prosesau cwynion lleol.

Rydym am gefnogi casglu a dadansoddi data cydraddoldeb yn well gan sefydliadau o dan ein Safonau Cwynion. Mae hyn nid yn unig yn helpu'r sefydliadau hyn i gefnogi achwynwyr yn well ond mae hefyd yn ein helpu i ddeall i ba raddau mae proffil y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn adlewyrchu proffil y bobl sy'n cwyno am wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Yn seiliedig ar ein hymholiadau cychwynnol i sefydliadau allweddol yn ein hawdurdodaeth, nid oes gan gyrff cyhoeddus ledled Cymru arferion cadarn ar waith eto i gasglu data cydraddoldeb achwynwyr. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda rhwydwaith Awdurdodau Lleol Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2024.

Yn ystod 2025-26, roedd yn angenrheidiol gohirio gwaith pellach yn y maes hwn oherwydd pwysau ehangach ar wasanaethau a newidiadau o fewn ein tîm Safonau Cwynion. Gyda'r newidiadau hyn bellach wedi'u cwblhau, edrychwn ymlaen at barhau â'r gwaith hwn o dan ein Cynllun Cydraddoldeb newydd 2026-29.

Amcan 6: Gweithio i wella cynrychiolaeth grwpiau targed ymhlith ein gweithlu.

Rydym am i'n gweithlu fod yn gynrychioliadol o'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'n bwysig pwysleisio bod, fel sefydliad sydd â gweithlu cymharol fach, gall un neu ddau o newidiadau yn nifer y staff effeithio'n sylweddol ar ein data. Hefyd, gan fod ymateb i fonitro cydraddoldeb yn wirfoddol, mae'n bosibl nad yw ein data yn adlewyrchu proffil cydraddoldeb ein gweithlu'n llawn. Yn 2025-26, cwblhaodd 87% o'n gweithwyr yr arolwg cydraddoldeb.

Ein staff

Yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd, mae'n ymddangos bod rhai grwpiau wedi'u cynrychioli'n gymharol dda ymhlith ein gweithlu. Roedd hyn yn cynnwys pobl sy'n

- dros 55 oed
- uniaethu fel benyw
- dod o gefndiroedd cenedlaethol amrywiol
- uniaethu â chyfeiriadau rhywiol amrywiol.

Fodd bynnag, roedd rhai grwpiau'n parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol. Roedd hyn yn cynnwys pobl sydd

- o dan 25 oed – tra oedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn 2026 yn sefyll ar 7%, roedd hyn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o tua 11% .
- yn dod o gefndiroedd ethnig amrywiol – uniaethodd 4% o'n staff a rannodd ddata cydraddoldeb fel hyn, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 6%.
- yn dilyn crefyddau amrywiol – 1% o'n staff a uniaethodd fel hyn, is na chyfartaledd Cymru o 4%.
- yn uniaethu fel traws

- yn uniaethu fel anabl – uniaethodd 4% o'n staff fel hyn, o'i gymharu â 21% o boblogaeth Cymru. Yn ogystal, er bod 11% o ymgeiswyr am swyddi y mae gennym ddata cydraddoldeb ar eu cyfer wedi nodi eu bod yn anabl, nid oedd y grŵp hwn wedi'i gynrychioli ymhlith y rhestr fer o ymgeiswyr gan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swyddi gwag.

Er bod 12% o'n staff wedi dweud mai'r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf, roedd cyfrannau'r bobl â sgiliau iaith Gymraeg yn llawer uwch:

- yn siarad: 30%
- darllen: 28%
- ysgrifennu: 25%
- deall: 29%.

Er mwyn i ni adlewyrchu'r amrywiaeth mewn cymdeithas, ein nod yw denu mwy o ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl.

Mae nifer o grwpiau cydraddoldeb, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg, wedi'u cynrychioli'n dda ymhlith ein staff, ac rydym am wneud mwy i hyrwyddo cyfleoedd perthnasol i'r grwpiau a gall cael eu cynrychioli'n well.

Er ein bod yn gwybod na fyddai rhai o'n staff sy'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o anabledd yn uniaethu fel pobl anabl, o dan ein Cynllun Cydraddoldeb newydd a'n Strategaeth Pobl newydd rydym yn bwriadu ailystyried ein hymdrechion i gynyddu cynrychiolaeth y grŵp hwn yn ein gweithle.



Mae sgiliau Cymraeg ein staff wedi gwella eto.

Amcan 7: Parhau i fonitro ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodi unrhyw gyfleoedd i'w leihau ymhellach.

Yn 2025-26:

- roedd ein bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn 2%
- nid oedd bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau.

I gymharu, mae'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU yn awgrymu, yn 2024, bod y bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn y DU yn 6.9% a'r canolrif yn 4.4%.

Rydym yn falch o'r canlyniad hwn ac mewn sefydliad bach, rydym yn cydnabod y gall penodiadau unigol wneud gwahaniaeth sylweddol i gyfrifiadau'r bwlch cyflog.




Nid oedd gennym fwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau.

	Mawrth 2024	Mawrth 2025	Mawrth 2026
% o staff yn fenywod	77%	77%	77%
Bwlch Cyflog Canolrifol Rhwng y Rhywiau	0%	-6%	0%
Bwlch Cyflog Rhywiol Cymedrig	8%	-5%	2%

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y tabl hwn yn seiliedig ar hunaniaeth dybiedig o ran rhywedd, fel ei fod yn adlewyrchu'r gweithlu cyfan.

Atodiadau

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno ein data monitro cydraddoldeb. Cysylltwch â cyfathrebu@ombwdsmon.cymru os oes gennych ddiddordeb mewn dadansoddiad mwy manwl o'r data hwn.



Atodiad 1: Proffil cydraddoldeb ein hachwynwyr

Mae'r tablau canlynol yn cyflwyno proffil cydraddoldeb ein hachwynwyr yn 2025-26, o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom newid i ffurflen monitro cydraddoldeb wedi'i diweddarau ac nid ydym yn ystyried bod data Ch3 yn ddibynadwy. Mae'r tabl isod yn cyflwyno data 2025-26 yn seiliedig ar Ch1, 2 a 4 yn unig, oni bai ei fod wedi nodi'n wahanol.

Yn ystod Ch1, 2 a 4 y flwyddyn, roedd 45% o'n cwynion newydd yn dod gyda data cydraddoldeb.

Nodwedd cydraddoldeb	Proffil (2023-24)	Proffil (2024-25)	Proffil (2025-26)	Ein dadansoddiad
Oedran (o dan 25)	3%	3%	2%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn llawer is na chyfartaledd Cymru o 12% o bobl 15-24 oed (SYG).
Oedran (dros 55)	36%	32%	30%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 35% (SYG).
Oedran (dros 65)			13%	Mae'r grŵp hwn wedi'i dangynrychioli o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 21.3% (SYG).
Rhyw (benywaidd)	53%	49%	49%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn fras yn unol â chyfartaledd Cymru o 51% (Cyfrifiad 2021).
Cefndiroedd ethnig amrywiol	5%	5%	12%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru o 6.3% (Llywodraeth Cymru).

Nodwedd cydraddoldeb	Proffil (2023-24)	Proffil (2024-25)	Proffil (2025-26)	Ein dadansoddiad
Cefndiroedd cenedlaethol amrywiol	3%	2%	3%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn is na chyfartaledd Cymru o 5.4% o bobl a ddewisodd o leiaf un hunaniaeth genedlaethol nad yw'n rhan o'r DU (Llywodraeth Cymru).
Anabledd: oes	31%	27%	32%	Mae'r grŵp hwn wedi'i gynrychioli'n dda iawn o ystyried bod 21.1% o bobl yng Nghymru yn anabl (Cyfrifiad 2021).
Anabledd: Wedi'i gyfyngu gan broblem iechyd neu anabledd llawer neu ychydig	44%	39%	45%	
Cyfeiriadau rhywiol amrywiol	6%	5%	8%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn fwy na chyfartaledd Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021 (3%).
Hunaniaeth draws	2%	1%	2%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr yn ôl Cyfrifiad 2021 (0.5%)
Crefyddau amrywiol	4%	3%	5%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn fwy na chyfartaledd Cymru o 4% (Ystadegau Cymru)

Nodwedd cydraddoldeb	Proffil (2023-24)	Proffil (2024-25)	Proffil (2025-26)	Ein dadansoddiad
Prif iaith: Cymraeg	5%	2%	0.72%	Mae'r grŵp hwn wedi'i dangynrychioli'n fawr o ystyried cyfartaledd Cymru o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (17.8%, Cyfrifiad 2021).
Prif iaith: arall	1%	0%	0.12%	Mae'r grŵp hwn wedi'i dangynrychioli'n fawr, o'i gymharu â 3.2% o boblogaeth Cymru a nododd yn 2021 nad Cymraeg na Saesneg oedd eu prif iaith (Llywodraeth Cymru)
Priod neu mewn partneriaeth sifil	41%	41%	39%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn unol â chyfartaledd Cymru o 40% (Cyfrifiad 2021).
Cyflogaeth: fel arall ddim mewn gwaith â thâl	16%	16%	15%*	Ym mis Gorffennaf 2025, roedd cyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 23.9% (LLYW). Mae hyn yn awgrymu bod pobl sy'n economaidd anweithredol wedi'u tangynrychioli ymhlith ein hachwynwyr.
Addysg: Gradd fel y cymhwyster uchaf	41%	42%	43%	Mae pobl sydd â chymwysterau lefel gradd wedi'u gorgynrychioli ymhlith ein hachwynwyr (yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd gan 31.5% o breswylwyr arferol 16 oed neu hŷn yng Nghymru gymwysterau ar Lefel 4 neu uwch).

*Data Ch1 a Ch2 yn unig, gan fod y cwestiwn wedi'i ddileu yn Ch3

Atodiad 2: Proffil cydraddoldeb ein gweithlu

Cynhelir monitro cydraddoldeb ein gweithlu drwy arolwg staff mewnol gwirfoddol a dienw. Yn 2025-26, cwblhaodd 87 % o'n gweithwyr yr arolwg.

Nodwedd cydraddoldeb	Proffil (2023-24)	Proffil (2024-25)	Proffil (2025-26)	Ein dadansoddiad
Oedran (o dan 25)	0%	6%	7%	Gwellodd cynrychiolaeth y grŵp hwn o'i gymharu â'r llynedd, ond arhosodd yn is na chyfartaledd Cymru o 12% o bobl 15-24 oed (SYG).
Oedran (dros 55)	15%	15%	13%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn fras yn unol â chyfartaledd Cymru o tua 14% o boblogaeth Cymru rhwng 55 a 65 oed (SYG).
Rhyw (benywaidd)	77%	74%	78%	Roedd cyfran y menywod yn ein gweithlu yn sylweddol uwch na chyfran y grŵp hwn ym mhoblogaeth Cymru yn gyffredinol.
Dyletswyddau gofalu (oes)	58%	55%	64%	
Cefndiroedd ethnig amrywiol	6%	5%	4%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn ychydig islaw cyfartaledd Cymru o 6.3% (Llywodraeth Cymru).

Nodwedd cydraddoldeb	Proffil (2023-24)	Proffil (2024-25)	Proffil (2025-26)	Ein dadansoddiad
Cefndiroedd cenedlaethol amrywiol	3%	3%	6%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 5.4% o bobl a ddewisodd o leiaf un hunaniaeth genedlaethol nad yw'n rhan o'r DU (Llywodraeth Cymru).
Anabledd	6%	4%	4%	Roedd y grŵp hwn wedi'i dangynrychioli'n sylweddol o ystyried bod 21.1% o bobl yng Nghymru yn anabl (Cyfrifiad 2021).
Cyfeiriadau rhywiol amrywiol	4%	4%	3%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn unol â chyfartaledd Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021 (3%).
Hunaniaeth draws	0%	0%	0%	Yn ôl Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, roedd tua 0.5% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yng Nghymru yn uniaethu fel trawsryweddol neu an-ddeuaidd. Mewn sefydliad bach, mae'n annhebygol na fydd neb yn uniaethu fel traws.
Crefyddau amrywiol	2%	1%	1%	Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn is na chyfartaledd Cymru o 4% (Ystadegau Cymru).

Nodwedd cydraddoldeb	Proffil (2023-24)	Proffil (2024-25)	Proffil (2025-26)	Ein dadansoddiad
Prif iaith: Cymraeg	8%	12%	12%	Er bod cyfran y bobl a nododd mai'r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf yn is na chyfartaledd siaradwyr Cymraeg Cymru (17.8%), roedd cyfran y staff a oedd â sgiliau iaith Gymraeg cymharol dda neu rugl yn uwch na'r cyfartaledd hwnnw.
Sgiliau iaith Gymraeg	Siarad: 21% Darllen: 24% Ysgrifennu: 21% Dealltwriaeth: 21%	Siarad: 28% Darllen: 27% Ysgrifennu: 26% Dealltwriaeth: 28%	Siarad: 30% Darllen: 28% Ysgrifennu: 25% Dealltwriaeth: 29%	
Prif iaith: arall	1%	1%	1%	Roedd y grŵp hwn wedi'i dangynrychioli, o'i gymharu â 3.2% o boblogaeth Cymru a nododd yn 2021 nad oedd eu prif iaith yn Gymraeg na Saesneg (Llywodraeth Cymru).
Priod neu mewn partneriaeth sifil	63%	63%	64%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn fwy na chyfartaledd Cymru o 40% (Cyfrifiad 2021).

Atodiad 3: Proffil cydraddoldeb ein hymgeiswyr swyddi

Nodwedd cydraddoldeb	Proffil (2024-25)	Proffil (2025-26)	Ein dadansoddiad
Oedran (o dan 25)	5%	5%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 12% o bobl 15-24 oed (SYG).
Oedran (dros 55)	10%	7%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn is na chyfartaledd Cymru o tua 14% o boblogaeth Cymru rhwng 55 a 65 oed (SYG).
Rhyw (benywaidd)	58%	60%	Roedd cyfran y menywod ymhlith ein hymgeiswyr am swyddi yn sylweddol uwch na chyfran y grŵp hwn ym mhoblogaeth Cymru yn gyffredinol.
Dyletswyddau gofalu (oes)	41%	35%	
Cefndiroedd ethnig amrywiol	8%	8%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 6.3% (Llywodraeth Cymru).
Cefndiroedd cenedlaethol amrywiol	3%	5%	Gwellodd cynrychiolaeth y grŵp hwn ac roedd yn unol â chyfartaledd Cymru o 5.4% o bobl a ddewisodd o leiaf un hunaniaeth genedlaethol nad yw'n rhan o'r DU (Llywodraeth Cymru).

Nodwedd cydraddoldeb	Proffil (2024-25)	Proffil (2025- 26)	Ein dadansoddiad
Anabledd	8%	11%	Gwellodd cynrychiolaeth y grŵp hwn ond parhaodd yn sylweddol is na'r cyfartaledd o 21.1% o boblogaeth Cymru a nododd eu bod yn anabl (Cyfrifiad 2021).
Cyfeiriadau rhywiol amrywiol	8%	10%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021 (3%).
Hunaniaeth draws	1%	0%	Yn ôl Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, roedd tua 0.5% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yng Nghymru yn uniaethu fel trawsryweddol neu an-ddeuaidd.
Crefyddau amrywiol	2%	3%	Gwellodd cynrychiolaeth y grŵp hwn ond roedd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 4% (Ystadegau Cymru).
Prif iaith: Cymraeg	13%	7%	
Sgiliau iaith Gymraeg	Siarad: 27% Darllen: 27% Ysgrifennu: 26%	Siarad 20% Darllen 20% Ysgrifennu 19%	Er bod cyfran y bobl a nododd mai'r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf yn is na chyfartaledd siaradwyr Cymraeg Cymru (17.8%), roedd cyfran y staff a oedd â sgiliau iaith Gymraeg cymharol dda neu rugl yn uwch na'r cyfartaledd hwnnw.
Prif iaith: arall	1%	3%	Roedd y grŵp hwn wedi'i gynrychioli'n dda, o'i gymharu â 3.2% o boblogaeth Cymru a nododd yn 2021 nad oedd eu prif iaith yn Gymraeg na Saesneg (Llywodraeth Cymru).
Priod neu mewn partneriaeth sifil	43%	46%	Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn fwy na chyfartaledd Cymru o 40% (Cyfrifiad 2021).

Atodiad 4: Dadansoddiad rhyw yn ôl cyflog a rôl, math o gontract a threfniadau gwaith

Gan fod gennym nifer fawr o raddau, rhai gydag un deiliad swydd, mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad rhywedd y staff yn ôl cyflog a rôl.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y tabl hwn yn seiliedig ar hunaniaeth rhywedd dybiedig, fel ei bod yn adlewyrchu'r gweithlu cyfan. Nid yw cyfanswm y gweithwyr yn y tabl hwn yn cynnwys yr Ombwdsmon.

Rôl	Cyflog (CALI)	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	% Gwryw	% Benyw
Gweinyddol a staff rheng flaen	£28k - £39k	5	20	25	20	80
Swyddogion Ymchwilio a Rheolwyr Gwasanaethau Cymorth	£39k - £53k	7	32	39	20	80
Rheolwyr Tîm	£53k - £61k	3	6	9	33	67
Uwch Reolwyr	£61k +	3	2	5	60	40
	Cyfanswm	18	60	78	23	77

Ar 31 Mawrth 2026, roedd 23 aelod o staff yn gweithio'n rhan-amser (22 o fenywod ac 1 dyn).



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203